**CYNLLUN GRANTIAU BACH PERTHYN**

**Sir Gaerfyrddin a Chymoedd Gorllweinol**

**Cronfa grantiau bach ar gyfer cymunedau Cymraeg eu hiaith sydd am sefydlu menter gymdeithasol neu dai cydweithredol a arweinir gan y gymuned.**

## Cefndir

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, sefydlwyd Perthyn yn 2022 ac mae'n gydweithrediad rhwng Cwmpas, a sefydliadau galluogi lleol Planed a phartneriaeth Dolan. Mae Perthyn yn darparu cymorth cyfnod cynnar lleol i'n cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Ngogledd Orllewin a De Orllewin Cymru sydd â diddordeb mewn; diogelu asedau a gwasanaethau lleol, creu swyddi newydd drwy fentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol newydd, creu cartrefi fforddiadwy a arweinir gan y gymuned i bobl eu rhentu neu eu prynu, ac sydd am ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith a chael budd ohoni.

Mae Perthyn yn cefnogi'r amcanion y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Wefan Perthyn: https://cy.cwmpas.coop/yr-hyn-a-wnawn/gwasanaethau/perthyn/.

**Grantiau bach Perthyn ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Chymoedd y Gorllewin wedi'u creu'n benodol i gefnogi'r Gymraeg a chreu gofodau Cymraeg newydd**

- Helpu i **gynnal** cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy sefydlu mentrau cymdeithasol a/neu fentrau cydweithredol newydd neu gefnogi twf mentrau cymdeithasol.
- Helpu i **gynnal** ein cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy ddatblygu atebion i gefnogi anghenion tai fforddiadwy lleol.
- Helpu i **gynnal** cymunedau Cymraeg i ffynnu grwy greu.
- **Creu** gofodau Cymraeg eu hiaith – lle mae'r Gymraeg yn ganolog ac yn rhan annatod o'r fenter.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Pwrpas y Grant hwn:**

Mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan grwpiau cymunedol Cymraeg eu hiaith sydd yn benodol yn **Sir Gar, Ystradgynlais (Powys), Cwm-twrch (Powys), Gwaencaegurwen (CNPT), Brynaman Isaf (CNPT), Llangyfelach, Pontarddulais a Clydach** sydd eisiau creu a/neu adeiladu gallu cymunedol a chyflymu syniadau a fydd yn arwain at greu mentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol neu dai a arweinir gan y gymuned. Sylwch fod y grantiau ar gyfer prosiectau refeniw yn unig.

**Isod mae enghreifftiau o'r math o wariant a fyddai'n gymwys o dan y grant hwn:**

- Adeiladu capasiti
- Goresgyn rhwystrau i gyfranogiad llawn aelodau'r grŵp mewn gweithgareddau hanfodol (e.e., costau gofal)
- Hwyluso ymgysylltiad cymunedol (e.e., digwyddiadau ymgynghori, arolygon asesu anghenion tai, deunyddiau marchnata)
- Chwiliadau tir ac arolygon
- Costau cyn prynu (e.e., costau cynllunio ymlaen llaw, arolygon tir)
- Ffioedd morgais cyfnod cynnar
- Corffori
- Ymgynghoriaeth arbenigol (ddim ar gael o dan y rhaglen bresennol h.y., SBW, Cymunedau yn Creu Cartrefi)
- Cyngor cyfreithiol

**Cymhwysedd**

1. Rhaid i'r syniadau arfaethedig gefnogi datblygiad o fewn cymunedau Gymraeg sydd yn **Sir Gar, Ystradgynlais (Powys), Cwm-twrch (Powys), Gwaencaegurwen (CNPT), Brynaman Isaf (CNPT), Llangyfelach, Pontarddulais neu Clydach**. (gweler dudalen 5 a 6 ble mae map o'r ardaloedd sydd yn gymwys).

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2. Gallwch ddangos sut y bydd eich syniad yn cefnogi nodau Cynllun Gweithredu Cymunedau Cymraeg a Chymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg yn benodol.

    - Cynorthwyo i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy sefydlu mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol newydd.

    - Helpu i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy ddatblygu atebion i gefnogi tai fforddiadwy lleol.

3. Rydych yn gwneud cais am grant refeniw rhwng **hyd at £10,000.**
4. Mae'r cynnig yn brosiect a arweinir gan y gymuned a gall ddangos gweledigaeth i gyflawni hyn.
5. Bydd cartrefi a ddatblygir yn fforddiadwy am byth i'r gymuned leol.

**Yr hyn na allwn ei ariannu:**

- Cyllid cyfalaf.
- Mae'r cyllid yn blaenoriaethu grwpiau sydd newydd eu sefydlu i droi syniadau yn brosiectau ymarferol. Os ceisir cyllid ar gyfer prosiectau presennol, dylech egluro beth yw'r ychwanegedd ac unrhyw ddulliau arloesol.
- Unigolyn, busnes neu sefydliad e.e., cymdeithas dai sy'n gweithio'n unigol ar brosiect. Sylwch fod y grant hwn yn brosiect a arweinir gan y gymuned a fydd yn elwa'n uniongyrchol ohono.
- Grwpiau na allant ddarparu tystiolaeth nad yw cefnogi'r Gymraeg yn thema ganolog i'r prosiect.

**PWYSIG – Sylwch**

Rhaid i bob cais ddangos yn glir sut y bydd y prosiect yn cefnogi'r nod hwn.

- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol h.y., ar gyfer costau yr eir iddynt cyn derbyn ein llythyr cynnig grant.
- **Mae grantiau ar gyfer defnydd refeniw yn unig, nid gwariant cyfalaf.**
- **Rhaid gwario'r cyllid erbyn 31 Mawrth 2024.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg neu Saesneg.**

**Sylwch: ni allwn dderbyn ffurflenni cais ar ffurf PDF.**

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Os yw'r cais ar gyfer grŵp nad yw wedi'i gyfansoddi eto a/neu nad oes ganddo gyfrif banc priodol, **gwnewch hyn yn glir yn y cais.** Os bydd y cais yn llwyddiannus gellir penodi **deiliad cronfa** i ddal a gweinyddu'r grant a ddyfarnwyd.

**N.B. Mewn achosion lle nad oes gan grŵp cymunedol gyfrif banc sefydledig mae angen deiliad cronfa. Bydd Cwmpas yn gweithredu fel deiliad cronfa ar ran yr ymgeisydd(ymgeiswyr) a bydd cyllid a ddyfernir yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i gyflenwyr/contractwyr ar ôl cwblhau'r gwaith a nodir ar y ffurflen gais.**

**Proses Ymgeisio**

Os ydych wedi ateb 'ydw' i'r cwestiwn cymhwysedd, llenwch y ffurflen gais isod a'i dychwelyd i samantha.edwards@cwmpas.coop

Bydd atebion i gwestiynau cais yn cael eu sgorio gan fatrics sgorio.

Bydd Cwmpas yn cynnal y gwiriadau cymhwysedd cychwynnol cyn cyflwyno'r cais i'r panel asesu. Bydd Cwmpas yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os oes angen rhagor o wybodaeth i gefnogi'r cais. Sylwch y bydd Cwmpas ond yn cyflwyno cais wedi'i gwblhau a cheisiadau cymwys i'r panel asesu.

**Caiff ceisiadau eu hasesu gan y panel asesu ar ôl y dyddiad cau.**

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan banel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gwmpas a Llywodraeth Cymru.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 12pm ar y 12/12/2023, bydd grwpiau cymunedol yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl ar ôl y trafodaethau panel.**

Yn dilyn hysbysiad e-bost o ddyfarniad grant llwyddiannus, bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i gytuno ar ofynion talu a monitro.

Lle mae Cwmpas yn gweithredu fel deiliad y gronfa ar ran grwpiau nad ydynt yn gyfansoddiadol, maent yn cadw'r hawl i atal cymorth os na ddarperir prawf boddhaol na ddarperir taliadau yn erbyn dibenion cymeradwy. Rhaid darparu copïau digidol o dderbynebau fel rhan o'r broses fonitro.

Gall y panel ofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr a bydd yn cynnig cyfle i grŵp ailgyflwyno gyda gwybodaeth ychwanegol.

**Angen help gyda'ch Cymraeg?**

Mae Helo Blod yn cynnig gwasanaeth cyfieithu a chyngor cyflym a chyfeillgar i'ch helpu i ddefnyddio ychydig o Gymraeg.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

**GWYBODAETH ARDALOEDD CYMWYS**

**Sir Gaerfyrddin ▪ Ystradgynlais (Powys) ▪ Cwm-twrch (Powys) ▪ Gwaencaegurwen (CNPT) ▪ Brynaman Isaf (CNPT) ▪ Llangyfelach ▪ Pontarddulais ▪ Clydach**

## Canran y boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r boblogaeth, 2021

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Canran y boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r boblogaeth, 2021

## Canran y boblogaeth tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r boblogaeth, 2021

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government